ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

VOICES FROM THE FACTORY FLOOR/ LLEISIAU O LAWR Y FFATRI

Ffatri Laeth Pont Llanio, Llanio, Ceredigion, 1957- 1967

(Gweithiodd Mair yn y labordy am flwyddyn cyn mynd ymlaen i weithio yn y swyddfa)

Enw: **VSW057 Mair Richards**

Dyddiad Geni: **5 Tachwedd, 1937**

Dyddiad: **6.5.2014**

Cyfwelydd: **Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

(There is an English summary following the Welsh text)

Ganwyd Mair yn Llanddewi Brefi, saith milltir o'r pentref. Ffarmwr oedd ei thad ac ar y fferm buodd ei mam yn gweithio hefyd. Unig blentyn oedd Mair. Aeth i'r ysgol gynradd yn Llanddewi, ac yna i'r ysgol uwchradd yn Nhregaron. Roedd wedi mwynhau ei hamser yn yr ysgol gynradd, ond nid oedd wedi mwynhau ei phrofiad yn yr ysgol uwchradd, ac fe adawodd yn bymtheng mlwydd oed. Aeth i weithio at un o'i pherthnasau ar fferm lawr ym Mumpsaint am dair blynedd. Roedd y ferch yn gorfod ymweld â'r ysbyty yn aml, ac roedd hyn yn golygu bod y fam i ffwrdd o'r fferm am sbel. Roedd yn hapus iawn yn y gwaith hwn. Roedd yn waith a oedd wedi cael ei drefnu cyn iddi adael yr ysgol, er nad oedd hi'n disgwyl i'r swydd barhau am dair blynedd.

Gorffennodd y gwaith gyda'i pherthynas, a chlywodd Mair am waith ym Mhont Llanio. Roedd un o'r merched a oedd yn gweithio yno'n gadael ac yn mynd i weithio mewn swyddfa yn Aberystwyth. Aeth Mair i gwrdd â'r rheolwr ac o ganlyniad buodd Mair yn gweithio'n y labordy am y flwyddyn gyntaf. Roedd toriadau ar y gweill yn y ffatri ar ôl hynny a fyddai'n golygu bod y sawl a oedd wedi cael eu cyflogau diwethaf yn colli'u swyddi'n gyntaf. Roedd swydd ar gael yn y swyddfa. Nid oedd gwaith swyddfa yn apelio llawer at Mair, ond awgrymodd y rheolwr ei bod hi'n ceisio am y swydd, ac y byddai'n ei rhoi ar brawf am dri mis. Dechreuodd yn y swydd ym mis Rhagfyr ond ernyn diwedd mis Mawrth roedd e dal heb sôn os oedd e'n hapus i Mair barhau'n y swydd neu beidio. Gofynnodd iddo ac roedd e'n hapus iawn ei bod yn cario ymlaen, buodd yno am naw mlynedd.

Roedd teimladau cymysg gan Mair am y swydd ar y dechrau oherwydd nid oedd ganddi lawer o hyder yn ei hun. Byddai Mair wedi bod wrth ei bodd yn mynd i nyrsio. Mae'n teimlo nad oedd wedi cael ei gwthio a'i hannog digon i wneud hyn.

00.05.57: 'Yr adeg 'nny, mynd allan a mynd i ennill. Fel 'na o'dd hi.'

Ym Mhont Llanio roedd y gwaith yn y 'lab' yn golygu cymryd samplau o laeth a'u harbrofi. Roedd tair o ferched yn gweithio gyda'i gilydd yn gwneud y gwaith hwn. Y merched eraill oedd yn dangos iddi beth i wneud. Roedd yn nabod y merched eraill i gyd oedd yn gweithio yno cyn mynd i weithio yno ei hun. Gwneud llaeth powdwr (i anifeiliaid) oedd y ffatri erbyn bod Mair yn mynd i weithio yno. Buodd y ffatri'n cynhyrchu menyn cyn hynny. Nid oedd angen cymwysterau i weithio'n y labordy, ond roedd y ferch a weithiai fel 'analyst' yno wedi bod trwy'r coleg. Roedd 57 person yn gweithio yno ar y pryd. Roedd mecanic yno, a dyn yn gweithio'n y *boiler house*, dau ar y powdwr, a'r lleill ar y dec gyda'r llaeth.

Roedd y merched yn y lab yn gorfod gwisgo *overalls* gwyn. Roedd Mair yn gwisgho iwniform glas pan weithiai'n y swyddfa. Nid oedd yn hapus iawn ei bod wedi mynd o'r lab i'r swyddfa ar y cychwyn, oherwydd ei diffyg hyder, ond roedd yn iawn ar ôl ymgymryd â'r gwaith. Y rheolwr ei hun oedd yn dangos i Mair beth i wneud yn y swyddfa. Buodd tri rheolwr gwahanol yno tra bod Mair yn gweithio'n y swyddfa ac roedd yn dod ymlaen yn dda gyda nhw. Cymraeg oedd iaith y rheolwyr ar y pryd ac roeddynt yn deg iawn gyda'r gweithwyr.

Roedd gweithwyr y lab a gweithwyr y swyddfa yn dechrau yr un pryd, sef hanner awr wedi wyth ac yn gorffen tua hanner awr wedi pedwar. Roedd yn cael brêc yn y bore – te deg – ac amser cinio ac roedd ystafell ar gael lle roedd y gweithwyr yn chwarae *table tennis*. Roedd yna frêc yn y prynhawn hefyd. Roedd cantîn ar gael yn darparu *soup* neu frechdanau, ond roedd rhan fwya'r gyrrwyr yn mynd â brechdanau eu hunain . Nid oedd radio yn cael ei chwarae yn ystod y dydd. Roedd sawl un o'r merched yn gwau neu'n gwneud *crochet* pan oeddynt yn cael brêc.

Pan ddechreuodd Mair yn y ffatri merched di-briod oedd y rhai a oedd yn gweithio yno, ond erbyn 1960 roedd menywod priod yn cael gweithio yno. Nid oedd mamau â phlant bach yn gweithio yno. Nid yw Mair yn cofio faint roedd yn cael ei thalu, ond roedd yn cael tua dwy bunt yn fwy yn y swyddfa nag oedd yn cael am weithio'n y lab, ac roedd yn cael codiad cyflog bob blwyddyn. Nid oedd merched eraill yn gweithio'n y swyddfa gyda hi. Roedd y cyflogau'n cael eu paratoi yn ffatri Felinfach, ac roedd pob dim yn cael ei ddanfon i Bont Llanio. Ar ddydd Gwener roedd Mair yn mynd i fanc Barclays yn Nhregaron gyda'r rheolwr i gael yr arian ac yn llenwi'r amlenni ar gyfer y cyflogau, er mwyn i'r gweithwyr eu casglu ar ddiwedd y dydd.

Roedd digon o dynnu coes yn y ffatri. Mae Mair yn cofio streic a buodd yno yn y chwedegau ac roedd hwnnw'n gyfnod digon diflas. Nid yw Mair yn siwr beth oedd achos y streic – nid oedd yn fater a oedd wedi codi ym Mhont Llanio, ond yn rhywbeth oedd wedi codi yn y ffatri'n Felinfach.

00.19.47: 'O'n i ddim yn gwbod dim fod y peth fod 'mla'n ac amser o'n i'n mynd lawr at y ffatri, 'ma nhw'n stopo fi. A finne ddim fod i mynd mewn trw'r giât. Ac o'dd y rheolwr tu fewn, yn gweud 'dewch mewn'.... Y gweithwyr i gyd, o'n nhw wedi mynd mas rhan fwya i gyd ar streic ond am un dreifar. A o'dd hwnnw, ar y lori, ar yr iard yn barod i fynd allan, ac o'dd e man'nny ond o'dd e ddim yn ca'l paso.... O'dd y rheolwr

yn gweud 'tho fi am fynd mewn a'r bois yn gweud am bido. Wel, arno fe o'n i'n mynd i rondo ontyfe... O'dd e tipyn bach yn lletwhith chi'n gwbod.'

Roedd rhai o'r ffermwyr yn dod mewn i'r ffatri i helpu yn ystod y cyfnod hwn achos roedd rhaid cadw pethau i fynd. Roedd un ferch wedi dod mewn â llaeth ac aeth i helpu ar y dec.

Asgwrn gynnen yr anghydfod oedd rhywbeth ynglyn ag un o'r dreifars yn ffatri Felinfach ac mae Mair yn credu taw cefnogi'r achos yma oedd gweithwyr Pont Llanio. Mae'n cofio bod undeb yno, ond nid yw'n cofio pa un. Mae Mair yn cofio talu at aelodaeth o'r undeb.

Roedd pawb yn gorfod clocio mewn ac allan o'r ffatri. Pan ddechreuodd Mair weithio yno roedd yn mynd i dwmpath dawnsus mor bell â Bow Street, a Llanybydder.

Mae Mair yn credu bod y gweithwyr yn cael eu trin yn deg, ac ar wahan i adeg y streic, roedd y gweithwyr yn dod ymlaen yn dda gyda'r rheolwyr. O dan y rheolwr, roedd 'foreman' o'r enw Dai Evans, a oedd yn berchen ar dyddyn tu allan i Landdewi.

O ardal Llanddewi roedd y mwyafrif o'r gweithwyr yn dod. Yn ystod y blynyddoedd cyntaf buodd yn gweithio ym Mhont Llanio seiclo i'r gwaith o Dregaron roedd Mair yn ei wneud, fel llawer o'r gweithwyr eraill. Roedd yn 19 mlwydd oed pan ddechreuodd weithio yno. Roedd rheolwr y gwaith yn cael car gan y Bwrdd Marchnata Llaeth i ddod i'r gwaith. (Roedd hefyd yn cael tŷ ganddynt.) Buodd gwraig y rheolwr yn dod mewn ambell brynhawn i deipio pan roedd yn brysur iawn yno.

O ran sŵn yn y ffatri, ar y dec roedd hi'n fwyaf swnllyd. Roedd y ffatri wedi'i gwresogi felly roedd hi'n ddigon cynnes yno a digon o olau yno. Roedd yn le bach o'i gymharu â ffatri Felinfach. Roedd Mair yn nabod rhai o'r bobl oedd yn gweithio'n Felinfach hefyd.

Amser Nadolig roedd parti yn cael ei drefnu yn y ffatri ei hunan. Roeddynt yn cael *draw* mawr a rhyw fath o de ar ôl gwaith. Nid oeddynt yn gallu yfed alcohol yno.

Nid yw Mair yn ymwybodol am unrhyw weithwyr sydd wedi dioddef sgil effeithiau ar ôl gweithio'n y ffatri.

00.33.05: 'Wy'n cofio'r bore nes i briodi – saith o'r gloch y bore a lori la'th. O'n i'n byw yn Nhregaron ar y pryd a'r lori la'th yn dod o ben draw'r stryd yn canu'r corn, a dim yn tynnu'i law o'r corn, wy'n cofio, a distyrbo pawb.'

Roedd Mair yn ffrindiau mawr gyda'r ferch oedd yn gweithio fel *analyst* yno. Roedd hi'n dod o Lanarth ac fe buodd hi'n lojo gydag un o'r gyrrwyr. Priododd Mair ym 1965 a chariodd ymlaen i weithio tan 1967, pan gafodd ei merch. Roedd ei gŵr yn hapus ei bod yn cario ymlaen i weithio ar ôl priodi.

Ar ôl iddi orffen ym Mhont Llanio ni fuodd Mair yn gweithio am bedair blynedd ac yna aeth i weithio gydag Undeb Amaethwyr Cymru. Roedd wedi dysgu sut i deipio ym Mhont Llanio felly roedd yn gallu mynd ymlaen i'r swydd hon. Buodd gyda'r Undeb am ddwy flynedd ac yna buodd yn gofalu am ei mam. O fewn wythnosau i'w mam farw cafodd Mair ysgariad. Roedd hyn yn gyfnod anodd i Mair ac roedd yn rhaid iddi chwilio am swydd, ond cafodd waith mewn cartref hen bobl yn Llambed a buodd yno am ddeunaw mlynedd. Dyma'r swydd roedd Mair yn ei hoffi.

00.37.16: 'Fel o'n i'n gweud, sen rhieni i wedi'n pwsho i fwy a gweud "ma' rhaid i ti" yntyfe.'

Roedd teipiadur yn y swyddfa ym Mhont Llanio ac roedd y rheolwr yno, Gwynfryn Evans, wedi dweud wrthi am ymarfer teipio bob munud sbâr oedd ganddi.

Pythefnos o wyliau a gafai ym Mhont Llanio. Nid oedd y ffatri yn gallu cau ar gyfer cyfnod yn ystod yr haf fel rhai o'r ffatrïoedd oedd yn gwneud nwyddau. Roedd Mair yn gallu dewis pryd roedd yn cymryd y gwyliau. Os oedd Mair i ffwrdd roedd merch yn dod lan o'r swyddfa'n Felinfach.

Pan ddechreuodd Mair yn y ffatri roedd sustem shiffts yno, gyda gweithwyr yn gweithio dros nos. Roedd tri llwyth yn dod mewn o ardal Aberystwyth, a dau arall. Roedd tair ohonynt yn gweithio'n y lab ar y pryd, ac yn mynd mewn am yn ail wythnos. Roedd yn mynd mewn tua hanner awr wedi pump yn y nos ac roedd yn rhaid i'r *foreman* i fynd gatre â nhw.

Roedd y ffatri'n gweithio saith diwrnod yr wythnos, er nad oedd Mair yn gweithio dydd Sadwrn neu ddydd Sul. Roedd mam a thad Mair yn falch bod ganddi swydd. Roedd Mair yn cael tipyn o help gyda'r bachgen oedd yn gweithio'n y *store room*, a gyda'r rheolwr hefyd, felly os oedd yn rhaid iddi fynd rywle byddent yn gofalu bod y cownt wedi cael ei wneud ar ei rhan erbyn diwedd y dydd.

Gyda'r teulu roedd y gweithwyr yn mynd ar eu gwyliau yn hytrach na gyda chyd-weithwyr. Nid yw Mair yn cofio am unrhyw drips yn cael eu trefnu i'r gweithwyr.

Roedd Mair yn drist iawn pan fennodd y rheolwr Morlais Jones yn y ffatri. Roedd yn fachgen lleol o Ddyffryn Aeron, a chafodd swydd gyda'r Bwrdd yn Crudgington. Roedd y rheolwr yno wedi cael damwain fawr, a phenderfynwyd y byddai'n well iddo ddod i Bont Llanio i weithio gan fod y ffatri yna'n llai o faint a llai o gyfrifoldeb.

Roedd sibrydion ar led pan roedd Mair ym Mhont Llanio y byddai'r ffatri'n cau. Y syndod mwyaf oedd i'r ffatri yn Felinfach gau hefyd. Dywedodd Mair am ei hamser ym Mhont Llanio,

00.49.10: 'O'n i ddim yn meddwl bydden i wedi dewis o ran hwnna, ond wedi gweud 'na, o'dd e'n le mor gartefol a mor ... wel, o'dd rhywbeth yn bod arnoch chi os nad o'ch chi'n hapus 'na. '

Roedd Mair yn drist iawn pan adawodd Pont Llanio. Dywedodd,

00.50.46: 'Roedd dyn ar un llaw yn hapus bod e'n disgwl babi, ar y llaw arall wedyn o'n i'n teimlo bod fi'n colli cwmni ontyfe. '

Mae Mair yn disgrifio'r adeg cafodd waith yng nghartre Hafan Deg yn Llambed.

00.54.57:

Mae Mair yn disgrifio'i lluniau o Bont Llanio sy'n dangos Dai Evans, y *foreman* y tu allan i'r ffatri, y rheolwr Morlais Jones, merch o'r lab, mecanic, cinio'r ffatri bob Nadolig yn Marine Aberystwyth. Roedd y gwaith yn trefnu bws i'r gweithwyr a byddai adloniant yno hefyd.

Cymraeg oedd iaith y ffatri. Nid oedd Saeson yn gweithio yno'r adeg hynny.

English summary

Pont Llanio, Llanio Milk Factory, Ceredigion, 1957-1967

(Mair worked in the laboratory before going on to work in the office)

Name: **VSW057 Mair Richards**

Date of birth: **5 November, 1937**

Date: **6.5.2014**

Interviewer: **Susan Roberts on behalf of Women's Archive Wales**

Mair was born in Ty'n Cornel, on Llanddewi Brefi mountain. Her father was a farmer and her mother helped him on the farm. Mair was an only child. She attended Llanddewi Brefi Primary School and then went on to secondary school in Tregaron. She enjoyed her time in primary school, but didn't enjoy her experience in secondary school, and left when she was fifteen years old. She went to work for a relative on a farm in Pumpsaint for a period of three years. The daughter there had to make frequent hospital visits, and this meant that the mother was absent from the farm quite often. Mair enjoyed this work. It had been arranged for her before she'd left school, although she never expected the job to last that long.

The job on the farm came to an end and Mair heard that there was work available at the milk factory in Pont Llanio. One of the girls working there was leaving to go to a job in Aberystwyth. Mair went to meet the manager and as a result got a job in the laboratory which lasted a year. After this time, they were implementing cutbacks which would have meant that the last people to start in the laboratory would lose their jobs so she went to work in the office there. Office work didn't appeal to her much but the manager had suggested she try for it, and there would be a three month probationary period. She started work in December but by the end of March the manager hadn't said whether he was happy with her work or not. She asked him and he said he was happy for her to carry on, and she was there for a period of nine years.

Mair had mixed feelings about the job at the beginning because she didn't have much confidence in her abilities. She would have like to have gone into nursing. She feels she wasn't encouraged enough to go and do this.

00.05.57: 'In those days, you went out to earn money. That's how it was.'

Working in the lab involved testing samples of milk. Three women did this work during the time that Mair was there. The other girls showed her what to do. She knew them before she started working there. It produced powdered milk (for animals) but had been producing butter. No qualifications were needed to work in the laboratory, although the woman who worked as an analyst had been to college. There were fifty seven people working there including a mechanic, a man working in the boiler house, two on the powder, and the others on the deck with the milk.

The women in the lab had to wear white overalls. Mair wore a blue uniform when she worked in the office. It was the manager himself who showed Mair what to do in the office. There were three different managers during the time that Mair was there, and she got on well with each one of them. The managers spoke Welsh and treated the workers fairly.

The lab and office workers started at the same time, which was half past eight, and finished at approximately half past four. There was a morning break at ten o'clock and at lunch times there was a room available where the workers could play table tennis. There was also an afternoon break. The canteen made soup and sandwiches, although some drivers took their own sandwiches. Several of the women would knit or crochet during breaks.

When Mair started at the factory the women who worked there were single, but by 1960 married women were allowed to work there. There were no mothers with small children working there. Mair doesn't remember how much she was paid, but she received two pounds more for working in the office than she had for working in the lab and received a pay rise every year. There were no other women working in the office with her. The wages were prepared in the factory in Felinfach, and sent to Pont Llanio. On a Friday, Mair would go to the bank in Tregaron with the manager to get the money and would fill the envelopes with the money, in order for the workers to collect them at the end of the day.

There was a lot of leg pulling in the factory. Mair remembers a strike that took place in the 1960s which was a miserable time. Mair can't remember the cause of the strike – it was a dispute that had originated in Pont Llanio rather than in Felinfach – and it was something to do with drivers.

00.19.47: 'I didn't know that it was going to take place and when I went down to the factory they stopped me. I wasn't to go through the gate. And the manager was inside, saying come in … Most of the workers had gone out on strike except for one driver. And he was on the lorry, in the yard, ready to go out, and there he was but they wouldn't let him pass … The manager was telling me to go in and the boys were telling me not to. Well, I was going to listen to him wasn't I? It was a bit awkward, you know.'

Some of the farmers would come into the factory to help during this time because they had to keep things going. One woman had brought milk in and went to help on the deck.

Mair remembers that there was a union there, and she remembers paying her membership money, although she doesn't remember which union it was.

Everybody had to clock in and out of the factory. When Mair started working there she would go to dances as far away as Bow Street and Llanybydder.

Mair thinks the workers were treated fairly, and apart from the time of the strike, the relationship between workers and managers were good. Under the manager, there was a foreman called Dai Evans.

The majority of the workers came from the Llanddewi area. During her early years there Mair would cycle to work from Tregaron, like many of the other workers. She was nineteen years old when she started working there. The manager was provided with a car by the Milk Marketing Board to come to work. He would also be provided with a house. The manager's wife would sometimes come in to the office to type when it was really busy there.

The noisiest place in the factory was on the deck. The factory was heated so it was warm enough there, and it was well lit. It was a small place compared to Felinfach. Mair knew some of the people working there as well.

Christmas time a party would be arranged in the factory itself. They would have a big draw and a tea after work but they weren't allowed to drink alcohol.

00.33.05: 'I remember the morning I got married – seven o'clock in the morning and the milk lorry coming. I was living in Tregaron at the time and the milk lorry coming down the street honking its horn … and disturbing everybody.'

Mair was very friendly with the girl who worked as an analyst. She came from Llanarth and lodged with one of the drivers. Mair got married in 1965 and continued working until 1967 when she had her daughter. Her husband was happy for her to carry on working after they got married.

After finishing in Pont Llanio, Mair didn't work for four years and then went to work with the Farmers' Union. She had learnt to type in Pont Llanio and used these skills in her new job. She worked for the Union for two years and then cared for her mother. Within weeks of losing her mother she had a divorce. This was a difficult time for Mair and she had to look for a job. She found one in an old people's home in Lampeter, and worked there for eighteen years. She loved this job.

There was a typewriter in the office in Pont Llanio and the manager, Gwynfryn Evans, would encourage Mair to practice her typing at every opportunity.

She had a fortnight's holiday in Pont Llanio. There was no shut down during the summer months, like at other factories. Mair could choose when she took her holidays and a woman from the factory in Felinfach would cover for her.

When Mair started in the factory there was a shifts system, with workers working overnight. Three of them worked in the lab, and swapped shifts every other week. The later shift started at half past five in the evening and the foreman would have to take them home afterwards.

The factory operated seven days a week, even though Mair didn't work a Saturday or a Sunday. Mair's parents were glad she had work. The lad in the storeroom and the manager were very supportive.

Workers went on holiday with their families rather than with each other. Mair can't recall any trips being organised for the workers at the factory.

Mair was very sad when Morlais Jones, the manager, left. He was a local lad from Dyffryn Aeron, and got a job with the Milk Marketing Board in Crudgington. The manager in that factory had had a serious accident and was sent to Pont Llanio to work as it was a smaller factory with less responsibility.

There were rumours in Pont Llanio while Mair was there that the factory would close. The biggest shock was that the factory in Felinfach also shut. Mair said of her time in Pont Llanio,

00.49.10: 'It wasn't somewhere that I would have chosen to work, but having said that, it was such a homely place … there would have been something wrong with you if you weren't happy there.'

She was really sad to leave. She said,

00.50.46: 'On the one hand I was happy because I was expecting a baby, on the other hand I felt I was going to miss the company.'

Mair describes getting the job at Hafan Deg old people's home in Lampeter.

00.54.57:

Mair talks about her photographs of the workers at Pont Llanio factory.